

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Rhagfyr 13 2022

18.30 – 19.00 Cyflwyniad gan Catrin Huws - Uwch Swyddog Galluogi Tai Cymunedol Gwynedd

Dechreuodd Catrin Huws trwy ddiolch am y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod ac i egluro ei rôl yn y Cynllun Peilot yn mynd i siarad gyda Chynghorau Cymuned Dwyfor er mwyn cael adborth am y Cynllun yn ardal Dwyfor. Roedd wedi cael ei chyflogi gan Grŵp Cynefin mewn partneriaeth efo Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd ac yn gweithio dan y Rheolwr Steffan Smith ym Motwnnog, LLŷn.

Mae'r Cynllun Peilot yn gweithio mewn dwy ffordd :

1. monitro cymunedau gwahanol. Caiff y data a gesglir ei ddefnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa o fewn y gymuned ac wedyn i
2. gymharu data ar gyfer gweithredu polisïau cenedlaethol. Mae'r data yn cael ei ddefnyddio ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol.

Rhai o'r newidiadau diweddar :-

- cynnydd o 150% ym mhrimiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi; 100% ar unedau gwag a 182% ar drethi busnes unedau gwyliau o Ebrill 2023 ymlaen.
- Cynllunio – bydd angen caniatâd cynllunio i newid eiddo yn uned wyliau.
- Cynllun ar y gweill i greu cap o fewn Dwyfor o faint o unedau gwyliau a ganiateir. Dydi Cyngor Gwynedd ddim wedi penderfynu eto os bydd hyn yn gynllun sirol neu a fydd yn cael ei beilota yn ardal Dwyfor i ddechrau. Bydd angen blwyddyn o rybudd cyn y caiff hyn ei basio'n gyfraith.
- Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar y cwestiwn os oes angen system drwyddedu ar gyfer unedau gwyliau – bydd ymgynghoriad ar hyn yn fuan.

Mae'r rhan fwyaf o'i gwaith yn ymwneud ag edrych ar gynlluniau sydd wedi cael eu gweithredu er mwyn monitro a newid polisïau a gweld os oes angen mwy o gefnogaeth ariannol ar rai cynlluniau. Un esiampl o hyn ydi'r **Cynllun Prynu Tai** sydd newydd gael ei ail-lansio gan Gyngor Gwynedd ym mis Medi 2022. Mae hwn yn cael ei weinyddu gan Tai Teg trwy fuddsoddiad o gronfa Primiwm Ail Gartrefi a buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yma yn rhoi cyfle i berson brynu tŷ cyntaf trwy gael benthyciad rhwng 10% a 50% yn ddi-log gan Gyngor Gwynedd ar gyfer y pryniant. Ni fydd angen talu'r benthyciad yn ôl tan i'r tŷ gael ei werthu neu pan fydd y perchennog wedi cynilo digon i dalu'r ddyled yn ôl.

Oherwydd prinder tai i'w rhentu mae **Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd** yn bwriadu prynu tai gwag er mwyn eu rhyddhau ar y farchnad rhentu. Maent yn cysylltu â pherchnogion tai sydd yn sefyll yn wag ers tro er mwyn eu prynu a'u hadnewyddu ar gyfer eu rhentu. Mae Llywodraeth Cymru'n edrych i mewn i'r posibilrwydd o greu cynllun grantiau ar gyfer ail-wneud ac adnewyddu tai. Gwelwyd tynhau yn ddiweddar ar y rheoliadau i landlordiaid ynglyn â rhentu eu tai. Golyga hyn fod angen i'r tai yma fod o'r safon uchaf posib' ac mae'r rhent wedyn yn codi'n sylweddol.

Maent hefyd yn cefnogi datblygiadau newydd ac yn cefnogi cymunedau a mudiadau cymdeithasol. Byddai'n braf medru sefydlu cronfa er mwyn i bobl brynu adeilad i'w addasu yn gartrefi i'w rhentu i bobl leol. Maent yn edrych ar bob mathau o ofynion tai gan fod heriau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol ac yn fodlon iawn i dderbyn unrhyw sylwadau ar anghenion Porthmadog.

Diolchodd y Cadeirydd i Catrin Huws am ei sgwrs gynhwysfawr a thrwyadl a soniodd am broblemau ardal Porthmadog yn arbennig gyda'i leoliad ar orlifdir sydd yn creu problemau ynddo'i hun ac yn llesteirio adeiladu unrhyw gynllun tai newydd yn yr ardal. Cafwyd cyfle i'r Cynghorwyr fynegi eu barn neu i holi Catrin Huws.

Dyma grynodedb o'r sylwadau :-

Melin yr Wyddfa – fyddai posib' i Gyngor Gwynedd brynu'r adeilad hanesyddol yma a'i drawsnewid yn fflatiau ar gyfer pol leol? Bydd yn edrych i mewn i'r mater

Beth yw hyd y Cynllun Peilot yma? 3 blynedd i ddechrau gyda'r gobaiith y caiff ei ymestyn.

Beth sy'n digwydd i'r tai sy'n cael eu prynu gan Gyngor Gwynedd? Cael eu rhentu allan.

Mae digon o dai yn ardal Dwyfor – y broblem yw eu bod nhw yn y dwylo anghywir.

Rydym yn hapus i weld fod Gwynedd ar y llwybr iawn erth ystyried prynu tai oddiar y farchnad agored gyda'r bwriad o'u gosod i bobl leol.

Beth fydd y gyllideb ar gyfer prynu'r tai yma? Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu i goffrau Cyngor Gwynedd ar gyfer hyn a bydd yr incwm ychwanegol o'r Primiwn Ail Gartrefi hefyd yn cyfrannu tuag ato.

Fyddech chi'n ystyried prynu fflatiau uwchben siopau mewn trefi? Byddai hyn yn dod o dan adain fusnes y cynllun fyddai'n edrych ar brynu unedau busnes gwag yn ogystal â'r fflatiau uwchben.

Diolchwyd unwaith eto i Catrin Huws am ei chyflwyniad trwyadl a chytunodd i rannu unrhyw ddata a gaiff ei gasglu ynglyn â thai gwag ac ystadegau am ddigartrefedd yn yr ardal yn y Flwyddyn Newydd.

Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Rhagfyr 13 2022

Presennol :- Cyngorwyr :- Sandra Bodden Jones, Aled Griffith, Michael Roberts, Connor Westwood, Llywelyn Rhys (Cadeirydd) , Dr Melfyn Edwards, Carol Hayes, Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Llinos Murphy

Aelodau o'r Cyhoedd :- Cyng June Jones
Marian Roberts (Clerc)

224.12.22. Ymddiheuriadau:- dim

225.12.22. Adroddiad y Cadeirydd.

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy groesawu pawb i'r cyfarfod misol olaf o 2022 a thrwy roi croeso swyddogol i Connor Westwood fel aelod newydd o'r Cyngor Tref. Roedd yn mynegi ei ddiolch i'r Clerc a'r Cyng Llinos Murphy a Phwyllgor y Ganolfan am eu gwaith yn trefnu noson goleuo Port ar 25.11.22. Roedd dechrau'r noson yn y Ganolfan cyn symud i gyfeiriad y Parc a thuag at y siopau wedi gweithio'n llyfn iawn ac roedd yr ymateb i'r achlysur wedi bod yn dda iawn. Diolchodd i bawb fu'n rhan o'r gweithgareddau.

Er fod y tywydd yn arw roedd hi'n bwysig edrych ymlaen at ddigwyddiadau megis y gwyliau a'r Nadolig i gael mwynhau cwmni teulu a ffrindiau. Rhaid sylweddoli hefyd ei bod yn gyfnod anodd i lawer oherwydd y sefyllfa ariannol a phrisiau bwyd a thanwydd.

226.12.22. Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-

Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Tachwedd 8 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Michael Roberts yn eilio

Cyfarfod Arbennig Andrew Basford Cyfoeth Naturiol Cymru Tachwedd 15 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio

Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid ac Eiddo Tachwedd 2022

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Aled Griffith yn eilio

227.12.22. Cyfle i'r Cyngorwyr ddatgan diddordeb.

Cyng Gwilym Jones :- Gohebiaeth 11 John Gwynedd Roberts 248.12.22

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

228.12.22 Ethol aelodau i lenwi swyddi Cyng Selwyn Griffiths :-

Penderfynwyd yn unfrydol fel a ganlyn :-

Is-Gadeirydd Pwyllgor Llawn – Cyng Aled Griffith

Is-Gadeirydd Is-bwyllgor Cyllid – Cyng Aled Griffith

Is-Gadeirydd Is-bwyllgor Eiddo – Cyng Aled Griffith

Cynrychiolydd ar bwyllgor y Ganolfan – Cyng Sandra Bodden Jones

Cynrychiolydd ar bwyllgor y Ganolfan Gyngori (Caernarfon)- Cyng Carol Hayes

Cynrychiolydd ar bwyllgor Caru Port – Cyng Michael Roberts

Cytunodd Cyng Connor Westwood gymeryd lle presennol Cyng Aled Griffith ar yr Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo.

229.12.22 Cyng Alwyn Gruffydd – Adroddiad o gyfarfod Pwyllgor y Clwb Chwaraeon

Dywedodd Cyng Alwyn Gruffydd nad oedd dim wedi digwydd i'w adrodd arno ers y cyfarfod diwethaf dim ond bod y Clwb Chwaraeon wedi derbyn rhodd o £2k gan gronfa Rebecca. Mae angen llawer iawn mwy o arian o godi'r clwb i'r safon dderbyniol gan fod angen gwario difrifol ar y llifoleuadau ac ar y cae bob tywydd. Roedd cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 14.12.22 ond mae hwn wedi ei ohirio tan ddechrau'r flwyddyn.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth.

230.12.22 Cyng Dr Melfyn Edwards – Cynnig ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i holi beth all y cyhoedd ddisgwyl fel gwasanaeth clirio dail, mes a sbwriel cyffredinol oddiar y strydoedd.

Eglurodd Cyng Dr Melfyn Edwards fel yr oedd yn bryderus am gyflwr y lonydd a'r strydoedd dros gyfnod cwmp y dail ym mis Hydref a Tachwedd. Nododd fod gwteri wedi llenwi a gorlifo i'r ffordd fawr gan greu pyllau dŵr a allai achosi damwain angeuol. Roedd am wneud cais i ofyn i swyddogion Cyngor Gwynedd ddod i lanhau'r strydoedd yn amlach yn ystod y cyfnod hwn – unwaith yr wythnos ym mis Hydref a mis Tachwedd.

(Bu'n rhaid i'r Cadeirydd adael y cyfarfod a cymerodd yr Is-Gadeirydd newydd, Cyng Aled Griffith, y Gadair yn ei absenoldeb.)

Nododd Cyng Aled Griffith fod y broblem gwteri yn llenwi â dail yn broblem hefyd yn Nhremadog oherwydd fod ceir wedi parcio ar ochr y stryd pan mae'r peiriant glanhau strydoedd yn galw.

Cynigiodd Cyng Llinos Murphy i ychwanegu i'r cais gwreiddiol gan holi os fyddai gan y Tim Tacluso rôl i'w charae yn hyn ac a fedrant hwy gael eu defnyddio i glirio'r dail pan mae'r sefyllfa ar ei waethaf.

Penderfynwyd :- cwmpasu'r ddau gynnig a'r Clerc i weithredu i lythyru Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio.

231.12.22 Cyng Alwyn Gruffydd :- Cynnig ysgrifennu ar Mark Drakeford i fynegi cais iddo fabwysiadu Cymru fel unig enw Cymru.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

232.12.22 Cyng Llinos Murphy :- Cynnig bod y Cyngor Tref yn talu am sesiynau ychwanegol o'r Clwb Ieuencid yn y Ganolfan o Ionawr ymlaen hyd at wyliau'r haf.

Eglurodd Cyng Llinos Murphy fel yr oedd y Clwb Ieuencid wedi bod yn llwyddiant a bod 35 o aelodau ynddo bellach gyda mwy yn mynychu bob wythnos. Roedd yn apelio i'r Cynghorwyr gytuno i gynnal ac ariannu sesiynau wythnosol o fis Ionawr 2023 tan o leiaf gwyliau'r Pasg gan iddynt brofi i fod mor boblogaidd. Cytunwyd yn unfrydol.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

233.12.22 Cyng Alwyn Gruffydd :- Cynnig bod y Cyngor hwn yn cadarnhau - rhag unrhyw gamddealltwriaeth all godi yn sgil gohebiaeth a dderbyniwyd yn ddiweddar - fod hawl tramwy gan y cyhoedd yn Cei Newydd.

Penderfynwyd :- ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i ofyn am gadarnhâd ganddynt fod y llwybr ar agor i'r cyhoedd ac i gynnwys lluniau o'r giataiau sydd wedi eu gosod i atal tramwy ar hyd y llwybr yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

234.12.22 Cyng Carol Hayes :- Cynnig ysgrifennu at bennaeth Grŵp Cynefin o dan Ddeddf

Rhyddid Gwybodaeth i ofyn (a) faint o dai gwag sydd yn Pensyflog (b) paham maent yn wag. Eglurodd Cyng Carol Hayes beth oedd y cefndir i'w chynnig a chafwyd trafodaeth ynglyn â'r sefyllfa ddifrifol o bobl yn aros am dai i'w rhentu yn lleol. Derbyniwyd gwelliant Cyng Alwyn Gruffydd oedd am gynnwys tai Isgraig yn y cwestiwn hefyd.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes.

235.12.22 Cyng Carol Hayes Cynnig ysgrifennu at y swyddog perthnasol yn y Lleng Brydeinig, Porthmadog i ofyn yn garedig am wasanaeth Cymraeg yn ogystal â Saesneg ar Ynys Galch ar ddydd Sul y Cofio 2023.

Penderfynwyd :- gweithredu yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio.

236.12.22. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Rhaglen Ionawr 10 2023 = Ionawr 1 2023 , (Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

Dim mater i'w gofnodi.

237.12.22 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Gwnaethpwyd y sylw fod Iwan G Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Gwynedd, o'r diwedd, ar ôl blwyddyn, wedi rhoi ateb byr i lythyr 204.12.21 oedd wedi cael ei yrru ato 3 gwaith.

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

GOHEBIAETH :

238.12.22 NIA WYN ARFON, Ymateb i 172.10.22 – cynllun O Law i law

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

239.12.22 NATIONAL GRID, Adroddiad o gyfarfod 27.10.22 ar Gae Bodawen

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

240.12.22 G.I.G. CYMRU, Ambiwllans Awyr

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ail-yrru'r llythyr eto er mwyn atgyfnerthu'r gwrthwynebiad yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio.

241.12.22 CYFOETH NATURIOL CYMRU, Arolwg cychod diffaith

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

242.12.22 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i 77.7.22 a 207.11.22 - peiriant glanhau stryd

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

243.12.22 STEFFAN JONES C.G., Ymateb i 129.9.22 a207.11.22 – Crazy Golf yn y Parc

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i ddiolch am y wybodaeth; holi beth ydi cynlluniau Gwynedd ar gyfer dyfodol y Parc a gwahodd Steffan Jones i gyfarfod y Cyngor Tref yn y Flwyddyn Newydd i drafod y mater ymhellach yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Michael Roberts yn eilio.

244.12.22 IWAN AP TREFOR C.G., Ymateb i 80.7.22,85.7.22 a 207.11.22 parcio anabl a manau gwefru

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

245.12.22 STEPHEN HARRHY, Ymateb i 216.11.22 – symud yr Ambiwllans Awyr i'r Trallwng

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

246.12.22 CHWARAE TEG, Ymateb i 205.11.22 – Plac Porffor

Cafwyd adroddiad gan y Cyng Carol Hayes i ddweud ei bod wedi cael caniatâd gan berchennog Tre

Gunther i osod plac ar yr adeilad; fod y plac yn gallu costio rhwng £500 a £1,000; fod y Clerc eisoes wedi llenwi'r ffurflen gais; fod gwybodaeth am Mair Eifion ar gael ar Wikipedia.

Penderfynwyd:- y Clerc i anfon y ffurflen gais ac i dderbyn ymateb gan fudiad Plac Porffor i weld os yw Mair Eifion yn deilwng i gael plac er cof amdani cyn trafod y gôst yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

247.12.22 SARPA, Ebost am Sarpa

Beth yw Sarpa?

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

(Gadawodd Cyng Gwilym Jones y cyfarfod)

248.12.22 JOHN GWYNEDD ROBERTS, Llythyr cais Cyfethol yn aelod o'r Cyngor Tref

Penderfynwyd :- Derbyn y wybodaeth gyda bodlonrwydd a chefnogi'r cais yn unfrydol. Bydd y Clerc yn llythyru â John Gwynedd Roberts i gadarnhau'r penderfyniad.

(Dychwelodd Cyng Gwilym Jones i'r cyfarfod)

249.12.22 STEFFAN PRYS ROBERTS C.G., Sefydlu Hwb cefnogi pobl Porthmadog

Dywedodd Cyng Gwilym Jones ei fod yn cyfarfod Steffan Prys Roberts ar 14.12.22 a'i fod yn fodlon adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

Penderfynwyd:- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i holi beth yn union y mae o'n ei geisio ac i holi os oes unrhyw gysylltiad rhwng Hwb Cefnogi Pobl ac Ardal Ni 2035 yn ôl cynnig Cyng Sandra Bodden Jones, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

250.12.22 UN LLAIS CYMRU, Ymgynghoriad - Dyfodol cymunedau Cymraeg –

Cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i lenwi'r holiadur ar ran y Cyngor Tref.

251.12.22 RHIAN ELIN GEORGE C.G., Cofnodion Gweithdy Ardal Ni

& Copi electronig yn unig (12 tudalen)o'r cofnodion

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

252.12.22 ANDREW BASFORD C.N.C, Arolygon Adar

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth

253.12.22 DYLAN ELLIS, Cynrychiolaeth ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest

Roedd Cyng Dr Melfyn Edwards yn cynnig yn ffurfiol ei ymddiswyddiad fel cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Borth y Gest oherwydd fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod ei oriau gwaith ac o'r herwydd ddim yn ymarferol bosibl iddo eu mynychu.

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn ysgrifennu'n ôl i hysbysu Dylan Ellis o ymddiswyddiad Cyng Dr Melfyn Edwards a gadael y mater o ethol cynrychiolydd newydd tan gyfarfod mis Ionawr yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones.

254.12.22 SIONED THOMAS, ymateb i 155.9.22 - Hwb Iechyd Eifionydd

HWB IECHYD EIFIONYDD, Datganiad i'r Wasg

Mynegodd Cyng Alwyn Gruffydd ei anfonlonrwydd gydag ymateb Sioned Thomas i'r llythyr blaenorol. Dywedodd nad oedd hi yn llwyr werthfawrogi pwysigrwydd rôl y Cynghorau Cymuned ac un o'r roliau pwysicaf ydi gwrandao ar beth mae'r gymuned yn ei ddweud er mwyn gwneud penderfyniadau ar ran y gymuned. Nododd mai ond un cynrychiolydd o 4 Cyngor Cymuned oedd yn y Grwp Cleifion ac y dylai'r Cynghorau fod yn rhan o benderfyniadau'r Grwp Cleifion. Maent yn colli cyfle i'r Hwb fod yn gorff effeithiol trwy anwybyddu llais y Cynghorau Cymuned.

Penderfynwyd :- ysgrifennu'n ôl i fynegi'r safbwyntau uchod yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

255.12.22 IWAN G. EVANS C.G., Ymateb i 204.12.21 – perchnogaeth y Cob a'r Cob Crwn

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a chadw'r cofnod ar y rhestr Aros am Ateb er mwyn monitro i gofio ei fod wedi gaddo "ateb fwy cynhwysfawr" yn y dyfodol.

(Dychwelodd y Cadeirydd, Llywelyn Rhys i'r cyfarfod.)

256.12.22 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

CARU PORT	Cyfraniad at oleuadau Nadolig	£	1,000.00
HSBC	Llog Banc Tach / Rhagfyr	£	14.94
HSBC	Dychwelyd sic Anglesey Hawking	£	400.00

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Dr Melfyn Edwards yn eilio :-

1	Marian Roberts	LLinell Ffôn a Wê Tachwedd 2022	£	52.06
2	Marian Roberts	* Cyflog Clerc Tachwedd 2022	£	922.97
3	Cyllid a Thollau ei Mawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Tachwedd 2022	£	230.74
4	R.J.Electrics	Gwasanaeth gosod / profi / tynnu goleuadau Nadolig	£	6,222.87
5	Y Ganolfan	Cyfarfodydd Tachwedd	£	80.00
6	Marian Roberts	Ad-daliad Recordydd llais digidol	£	33.99
7	Marian Roberts	Ad-daliad inc lliw a du	£	30.50

* Mae cyflog y Clerc wedi codi o £15.64 i £16.64 yr awr ers 1.4.2022

$£16.64 \times 16 \times 52 = \frac{£13,844.48}{12} = £1,153.71$

Llai Treth Incwm 20% £230.74

Cyflog Misol = £922.97

(Mae copi o bob sic ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc fod un sic o £8,000.00 i Gyngor Gwynedd am y Cytundeb Toiledau 2022-23 heb ei awdurdodi ers cyfarfod yr Is-Bwyllgor Cyllid ar 5.12.22. Penderfynwyd yn y cyfarfod hwnnw i basio'r mater ymlaen i'r Pwyllgor Llawn ddod i benderfyniad arno. Nodwyd mai "Rolling Contract" oedd y cytundeb ac mae'n bodoli ers 2017 – dangoswyd copi o'r Cytundeb gwreiddiol ar y sgrin. Mae'r Gyngor Tref wedi talu £8,000.00 yn flynyddol am y gwasanaeth tan yllynedd pan benderfynodd y Gyngor Tref i beidio a thalu. Mae'r Clerc wedi ymgynghori ag Amanda Murray – y swyddog perthnasol o Adran Bwrddreidrefol a gyda Mel ab Owain o Un Llais Cymru ynglyn â goblygiadau cyfreithiol gwrthod talu.

Penderfynwyd :- gyrru copi digidol o'r Cytundeb i'r Aelodau er mwyn iddynt gael amser i'w astudio a dod i benderfyniad arno yn nghyfarfod mis Ionawr yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Carol Hayes yn eilio.

257.12.22 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais .: C22/1008/44/DT (wedi ebostio 8.11.22 angen ymateb unigol)

Lleoliad : Glanaber Cottage Beach Road, Morfa Bychan, Porthmadog, LL49 9YA

Bwriad : Modurdy domestig arfaethedig

(b) Rhif Cais .: C22/1004/44/DT (wedi ebostio 8.11.22 angen ymateb unigol)

Lleoliad : 28 Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LE

Bwriad : Estyniad unllawr ochr a chefn

(c) Rhif Cais .: C22/1013/44/TC (wedi ebostio 8.11.22 angen ymateb unigol)

Lleoliad: 8 Cei'r Wyddfa, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9ND

Bwriad I: Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd arfaethdig fel tŷ annedd preswlydd parhaol, fel tŷ haf a fel tŷ gwyliau fel y disgrifir gan Ddosbarthiadau C3, C5 ac C6 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarth Defnydd) 1987

(ch) Rhif Cais .: C22/1010/44/DT (wedi ebostio 9.11.22 angen ymateb unigol)

Lleoliad : 10 Pen Y Cei, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AT

Bwriad I: Dymchwel estyniad to fflat unllawr cefn presennol a chodi estyniad newydd deulawr to Pits

(d) Rhif Cais / Application No.: C22/1038/44/LL (wedi ebostio 9.11.22 angen ymateb unigol)

Lleoliad : Banc Barclays, Bank Barclays, 79 - 81 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9ET

Bwriad : Newid defnydd cyn fanc (dosbarth A2 -Cyllid a phroffesiynol) i Optegydd / siop (dosbarth A1- Siop) ynghyd a chyfnewid 6 uned echdynnu aer allanol am 6 uned newydd ar gefn yr adeilad

(dd) Rhif Cais .: C22/0988/44/HY (wedi ebostio 9.11.22 angen ymateb unigol)

Lleoliad: Banc Barclays, Bank Barclays, 79 - 81 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9ET

Bwriad : Gosod 3 arwydd goleuedig ar flaen yr adeilad

Ni chafwyd trafodaeth am y ceisiadau uchod gan fod y Cynghorwyr eisoes wedi gorfod rhoi ymateb yn unigol arnynt yn uniongyrchol i'r Adran Cynllunio oherwydd gofynion amser y 21 diwrnod.

(e) Rhif Cais .: C22/0980/44/DT (wedi ebostio i'ch sylw 29.11.22)

Lleoliad : Eryldon, 1 Rhes Amanda, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TT

Bwriad : Estyniad deulawr ochr ac ymestyn ac addasiadau i'r to cefn

Penderfyniad :- gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol :-

- Mae o'n or-ddatblygiad
- Mae o'n gosod cynsail ar gyfer ceisiadau cyffelyb
- Byddai'n amharu ar fwynderau preswylwyr cyfagos
- Mae'n newid edrychiad y tŷ

yn ôl cynnig Cyng Dr Melfyn Edwards, Cyng Llinos Murphy yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.30

Marian Roberts

(Clerc)